**Beirniadaeth Cystadleuaeth 357**
**Rhyddiaith Bl. 10 ac 11: Mentro**
**Beirniad: Sioned Erin Hughes**

Diolch am gael beirniadu cystadleuaeth Rhyddiaith Blynyddoedd 10 ac 11. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd 'Mentro', a braf gweld bod y cystadleuwyr wedi dilyn sawl trywydd gwahanol wrth fynd ynglŷn â'r thema.

Daeth 15 stori i law. Mae llinyn arian yn rhedeg drwy'r straeon hyn, sef bod ymdeimlad cryf o orchfygu yn llywio'r naratif. Mae'r rhain yn straeon am ddod i oed, am faglu a chodi drachefn, am geisio dod o hyd i le yn y byd. Mae pob un o'r 15 stori yn cyffwrdd ar yr agweddau hyn, a chalonogol yw gweld eu hymdriniaeth aeddfed a deallus wrth saernïo'r gwaith.

Cawn stori am berson ifanc yn ffarwelio â'i daid (**Owain Williams 2**), a stori arall am fachgen yn gwirfoddoli i fod yn rhan o arbrawf er mwyn darganfod triniaeth blaengar ar gyfer canser (**Dŵr tap**). Mae un wedi ysgrifennu am orchfygu ofn gwirioneddol o uchder, ymhlith pethau eraill (**Betsi-wen**) a cheir stori deimladwy hefyd am fyw gyda chyflwr sy'n ymosod ar y system imiwnedd (**Bendigeidfran**). Cafodd y darnau hyn i gyd effaith arnaf a rhaid canmol eu sensitifrwydd a'u craffter. Roedd straeon **Owain Williams 2**, **Dŵr Tap**, **Betsi-wen** a **Bendigeidfran** yn wreiddiol ac yn deimladwy, ac yn agos at y brig. Rwy'n gobeithio'n fawr bydd y pedwar yn parhau i ysgrifennu.

Nesaf, y tri sydd wedi dod i'r brig. Mae **Yr Ysbryd** yn stori unigryw am bentref Llanrhosan, a sut beth yw byw yng nghysgod Birmingham a Lloegr. Mae'r pentref dan warchae wedi i'r trigolion dderbyn llythyr yn dweud bod rhaid iddynt adael eu cartrefi gan bod cynlluniau ar waith i adeiladu ffatri yno er mwyn gwaredu sbwriel Birmingham. Y bwriad yw dymchwel yr holl dai a difa cymuned o bobl, a hynny oherwydd llanast Lloegr. Mae'r darn adlais fodern i hanes Llyn Celyn a Thryweryn, ac mae gwarth ac annhegwch y sefyllfa yn gwaedu drwy'r darn. Yn fwy na hynny, mae'r stori'n dangos pa mor wydn yw cymuned pan mae hi'n tynnu ynghyd, a bod modd cadw'r mur rhag y bwystfil. Diwedd hapus sydd i'r stori hon wrth i bobl Llanrhosan gasglu'r sbwriel a chreu o'r newydd gyda nhw, sy'n dileu cynlluniau barus y ffatri. Mae **Yr Ysbryd** yn gwybod sut i gynnal stori dda ac yn llwyddo i ddod o hyd i gydbwysedd berffaith rhwng diymadferthedd a phenderfynoldeb. Rydw i felly yn gosod **Yr Ysbryd** yn y trydydd safle.

Mae tristwch arhosol yn perthyn i stori **Yr Ail Don**. Dyma stori am fachgen ifanc, Dylan, sy'n ymdopi â marwolaeth annhymig ei ffrind, Guto. I bob pwrpas, damwain achosodd farwolaeth Guto, ond damwain a ddaeth yn sgil bwlio. Roedd Dylan a Guto yn cael eu bwlio gan griw o'r Chweched oedd yn dweud eu bod yn hoyw. Er nad yw hynny'n cael ei gadarnhau yn y darn (dyw hynny ddim yn bwysig), beth sydd yma yw atgof o gyfeillgarwch prin a gwerthfawr, a'r tristwch llethol sy'n cael ei adael ar ôl yn sgil y farwolaeth. Mae'n amlwg bod Dylan yn ddigyfeiriad ac yn ei chael hi'n anodd wynebu ei ddyddiau heb ei ffrind. Ond pan mae mam Guto yn rhoi llyfrau ysgol ei mab yn anrheg i Dylan, mae'n cynnig balm i'w fyd, ac mae darn bach o'i ffrind yn byw o hyd. Mae'r ysgrifennu'n dyner, yn bwyllog, ac yn llawn empathi. Mae **Yr Ail Don** yn gwbl haeddiannol o'r ail safle.

Yna, mae gennym ni stori **Titw Tomos Las**, ac am stori ydi hi hefyd. Mae dyfeisgarwch heb ei ail yn perthyn i'r awdur yma, a meddyliais sawl gwaith wrth ddarllen peth mor brin a chyffrous yw gweld y fath aeddfedrwydd yn perthyn i'r pymtheg oed. Mae'n ddarn hirach na'r gweddill, ond mae pob gair yn talu am ei le ar y dudalen. Mae yna ryddid i ddehongli pob darn creadigol fel y mynnoch, wrth gwrs, ond roedd y darn hwn, i mi, yn teimlo fel yr ymrafael a'r cymodi sy'n digwydd, am yn ail, rhwng yr hunan (*self*) a'r meddwl, a pha mor bwysig yw cofio mai gorchwyl y

meddwl yw ein gwarchod, a dylen ni felly fod yn drugarog tuag ato. Os nad ydyn ni'n drugarog, mae'r gwarchod yn teimlo fel carchar. Ond os ydym ni'n drugarog, mae'n achubiaeth. Mae'n anodd gwneud cyfiawnder â'r stori yn y feirniadaeth hon, ond wir i chi, mae hi'n ysgubol, a'r sgwennu'n fyw ar y dudalen, ac yn gwbl ddiwastraff. Mae **Titw Tomos Las** yn awdur wrth reddf, ac mae ei ddyfodol ef, neu hi, yn pefrio. Llongyfarchiadau enfawr ar wobr gyntaf haeddiannol dros ben.